YSTADEGAU SWYDDOGOL

Adroddiad blynyddol ar y farchnad gymwysterau: blwyddyn academaidd 2019 i 2020 yng Nghymru

11 Chwefror 2021

Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig oedd ar gael i'w dyfarnu yng Nghymru dros y flwyddyn academaidd 2019/20 a nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd. Adroddir ystadegau ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data am gymwysterau cyffredinol ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data am gymwysterau galwedigaethol ar sail blwyddyn galendr ond fe'u brasamcanir i sail blwyddyn academaidd trwy ddefnyddio data ar gyfer mis Hydref i fis Medi ar gyfer blwyddyn academaidd.

Pwyntiau Allweddol

- Oherwydd effaith pandemig COVID-19 dylai defnyddwyr ddehongli gwahaniaethau mewn ystadegau rhwng 2020 a blynyddoedd cynharach yn ofalus.Dyfarnwyd 725,620 o dystysgrifau yn 2019/20, gostyngiad o 7.9% o'i gymharu â 2018/19. Y corff dyfarnu â'r gyfran fwyaf o'r farchnad oedd CBAC, a ddyfarnodd 68.7% o'r holl dystysgrifau, i fyny o 61.7% yn 2018/19.

Ffigur 1: Cyfres amser tystysgrifau yn ôl math



Ffynhonnell: Casgliad data Chwarterol Galwedigaethol (Ofqual cyn 2019, CC o 2019 ymlaen) a chasgliad data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (Ofqual cyn-2017, CC o 2017 ymlaen)

TGAU oedd y math o gymhwyster a ddyfarnwyd amlaf yn 2019/20. Cynyddodd nifer y tystysgrifau TGAU a ddyfarnwyd 1.0%.

Dolenni Cyflym	Cyflwyniad	Ystadegau	Cefndir
Ystadegydd Mark Hogan CStat		01633 37325	ystadegau@cymwysteraucymru.org
Ymholiadau'r cyfryngau Alan Morris		01633373216	cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data am nifer a mathau'r cymwysterau oedd ar gael i'w dyfarnu yng Nghymru dros y flwyddyn academaidd 2019/20 gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig (cyrff a gydnabyddir gennym ni i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau). At ddibenion yr adroddiad hwn ystyrir mai blwyddyn academaidd 2019/20 yw Medi 2019 hyd ddiwedd Awst 2020. Cesglir data am gymwysterau cyffredinol ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data cymwysterau galwedigaethol ar sail blwyddyn galendr ond fe'u brasamcanir ar sail blwyddyn academaidd (dehonglir data ar gyfer mis Hydref i fis Medi yn gynhwysol yma fel y flwyddyn academaidd Medi i Awst). Mae'n rhoi trosolwg o'r farchnad gymwysterau ac yn cynnig un pwynt cyfeirio am gyfranogwyr yn y farchnad.

Mae'r data a gyflwynir yn y datganiad hwn yn cynnwys nifer y cyrff dyfarnu, cymwysterau a reoleiddir a thystysgrifau a ddyfernir ar gyfer pob math o gymwysterau. Cyflwynir cyfran y farchnad o dystysgrifau ymhellach ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn ôl corff dyfarnu. Cyflwynir cyfran y farchnad o dystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill yn ôl maes pwnc sector, corff dyfarnu a safon cymhwyster.

Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn flynyddol ac mae'n seiliedig yn bennaf ar wybodaeth a gasglwn gan gyrff dyfarnu. Sylwch, yn adrannau cynnar yr adroddiad hwn, mae cymwysterau 'galwedigaethol ac eraill' yn golygu pob cymhwyster heblaw TGAU, UG a Safon Uwch. Mewn adrannau diweddarach, lle mae ffigurau cymwysterau galwedigaethol yn cael eu dadansoddi yn ôl corff dyfarnu, safon ac Ardal Sgiliau Sector, mae 'galwedigaethol ac eraill' hefyd yn eithrio Cymwysterau Prif Ddysgu a Chymwysterau Prosiect. Lle mae ffigurau ar gael i'r cyhoedd, fe'u cyflwynir i gywirdeb llawn. Mae ffigurau nifer y tystysgrifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, gyda gwerthoedd 1 i 4 wedi'u dynodi gyda "*". Nid yw'r ffigurau ar gyfer nifer y cymwysterau wedi'u talgrynnu. Mae mwy o wybodaeth am y datganiad hwn ar gael yn y wybodaeth gefndir yn ogystal â'r tablau data sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Mae ffigurau ar gyfer tystysgrifau galwedigaethol a chymwysterau eraill yn 2018/19 wedi'u cywiro ers eu cyhoeddi o'r blaen ac felly gallant fod yn wahanol i fersiwn blaenorol yr adroddiad hwn.

Ystadegau

Faint o gyrff dyfarnu sydd yng Nghymru?

Ffigur 2: Cyrff dyfarnu cydnabyddedig ar 31 Awst



Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019/20. Gellir gweld y data a ddefnyddir yn y siart hwn yn nhabl 3 y tablau data sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn. Mae'r ffigur ar gyfer 2019 wedi'i gywiro ers ei gyhoeddi o'r blaen.

Ar 31 Awst 2020, roedd 97 o gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru, sy'n un yn llai nag yn 2019. Ers sefydlu Cymwysterau Cymru ar 21 Medi 2015, mae 36 yn llai o gyrff dyfarnu cydnabyddedig, gostyngiad o 27.1%. Mae rhywfaint o'r gostyngiad hwn yn ganlyniad i'r ffaith nad oedd cyrff dyfarnu yn weithredol oherwydd nad oedd ganddynt ddysgwyr yng Nghymru. Yn ystod yr amser hwn, mae rhai cyrff dyfarnu wedi cael eu cydnabod o'r newydd, ac mae rhai cyrff dyfarnu wedi ildio eu hawl neu wedi'u tynnu'n ôl o gael eu cydnabod. Felly, nid yw'r gostyngiad net o reidrwydd yn golygu bod 36 o gyrff dyfarnu wedi ildio'u hawl gan y bydd rhai o'r cyrff dyfarnu sydd wedi'u dileu wedi cael eu gwrthbwyso gan gyrff dyfarnu newydd.

Faint o gymwysterau cymeradwy a dynodedig sydd yng Nghymru?

Ffigur 3: Nifer y cymwysterau cymeradwy



Ffynhonnell: Cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (tynnwyd y rhain ar 5 Ionawr 2020). Gellir gweld y data a ddefnyddir yn y siart hwn yn nhabl 4 y tablau data sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn.

Ffigur 4: Nifer y cymwysterau dynodedig



Ffynhonnell: Cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (tynnwyd y rhain ar 5 Ionawr 2020). Gellir gweld y data a ddefnyddir yn y siart hwn yn nhabl 4 y tablau data sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn.

Mae cymwysterau cymeradwy wedi cwrdd â meini prawf a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru. Mae cymwysterau dynodedig yn gymwys i'w defnyddio ar gyfer rhaglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus. Roedd 4,568 o gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig ar gael yn 2019/20, gostyngiad o 2,039, gostyngiad o 30.9% o'i gymharu â'r llynedd. Ers 2015/16 mae nifer y cymwysterau dynodedig wedi gostwng 5,794, gostyngiad o 56.9%, i 4,397, ac mae nifer y cymwysterau cymeradwy wedi cynyddu 69, gostyngiad o 67.6%, i 171. Mae hyn yn cynrychioli nifer y cymwysterau cymeradwy neu ddynodedig y gellid bod wedi'u dyfarnu yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, ond ni ddyfarnwyd pob un ohonynt.

Pa fathau o gymwysterau cymeradwy a dynodedig sydd ar gael yng Nghymru?

Tabl 1: Cymwysterau yn ôl math

Math o Gymhwyster	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Dyfarniad Uwch Estynedig	1	1	1	1	1
TAG Safon Uwch	246	258	209	154	57
TAG Safon UG	243	256	207	150	49
TGAU	411	381	280	117	78
Prif ddysgu	7	2	0	0	0
Prosiect	13	13	11	8	4
Galwedigaethol ac Arall(1)	9,364	8,789	7,569	6,169	4,371
Bagloriaeth Cymru	8	8	8	8	8
Cyfanswm	**10,293**	**9,708**	**8,285**	**6,607**	**4,568**

Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru (a dynnwyd ar 5 Ionawr 2020)

(1) Mae Galwedigaethol ac Arall yn cynnwys: QCF; Cyffredinol arall; Rhai cysylltiedig â galwedigaethol; IVET; CVET; Safon Mynediad; Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill; Sgiliau Hanfodol Cymru; Lefel uwch; Cymhwyster galwedigaethol; Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol; Sgiliau Allweddol

Cafodd y gostyngiad blynyddol cyffredinol mewn cymwysterau cymeradwy neu ddynodedig ei yrru gan ostyngiadau mewn cymwysterau 'Galwedigaethol ac Eraill' a ostyngodd 1,798, gostyngiad o 29.1%, TGAU a ostyngodd 39, gostyngiad o 33.3%, a safonau UG ac Uwch a ostyngodd 101 a 97 yn y drefn honno, gostyngiadau o 67.3% a 63.0% yn y drefn honno. Mae'r gostyngiad mewn TGAU, UG a Safon Uwch yn ganlyniad i ddiwygiadau i gymwysterau cyffredinol a'r symud at unig ddarparwr yng Nghymru.

Faint o dystysgrifau a ddyfarnwyd yng Nghymru?

Ffigur 5: Tystysgrifau yn ôl math o gymhwyster



Ffynhonnell: Casgliad data Chwarterol Galwedigaethol (Ofqual cyn 2019, CC o 2019 ymlaen) a chasgliad data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (Ofqual cyn-2017, CC o hynny ymlaen) Gellir gweld y data a ddefnyddir yn y siart hwn yn nhabl 1 y tablau data sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn.

O'i gymharu â 2018/19, gostyngodd cyfanswm nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn 2019/20 62,320, gostyngiad o 7.9%, i 725,620. Cynyddodd tystysgrifau TGAU 1.0%. Cynyddodd tystysgrifau UG 12.9% tra gwelodd Safon Uwch ostyngiad o 3.3%. Gwelwyd gostyngiad o 18.1% mewn cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill. TGAU bellach yw'r cymhwyster a ddyfernir amlaf, gan gyfrif am 45.6% o'r holl ardystiadau. Fodd bynnag, gall hyn fod yn effaith dros dro y pandemig COVID-19 ac felly dylai defnyddwyr ddehongli hyn yn ofalus.

Pa rai yw'r cyrff dyfarnu mwyaf yng Nghymru?

Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn tynnu sylw at y pum corff dyfarnu uchaf

Corff dyfarnu	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19 (r)	2019/20
CBAC	510,230	533,785	505,475	485,810	498,385
City and Guilds of London Institute	91,785	88,625	89,640	80,730	60,800
Pearson Education Ltd	105,750	72,785	58,595	41,070	45,175
Agored Cymru	8,650	10,150	17,975	18,520	18,845
Highfield Qualifications	20,275	24,975	32,490	32,645	18,125
Cyrff dyfarnu eraill	200,520	170,870	132,855	129,170	84,285
Cyfanswm	**937,205**	**901,190**	**837,035**	**787,940**	**725,620**

Ffynhonnell: Casgliad data Chwarterol Galwedigaethol (Ofqual cyn 2019, CC o 2019 ymlaen) a chasgliad data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (Ofqual cyn-2017, CC o 2017 ymlaen)

Gwelodd CBAC gynnydd o 12,580 o dystysgrifau, cynnydd o 2.6%, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n parhau i fod y corff dyfarnu gyda'r nifer fwyaf o dystysgrifau. Yn 2019/20 dyfarnodd CBAC 498,385 o dystysgrifau yng Nghymru, gan gyfrif am 68.7% o'r holl dystysgrifau, i fyny o 61.7% y llynedd. Roedd y pum corff dyfarnu mwyaf yn cyfrif am 88.4% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd, i fyny o 83.6% y llynedd.

Beth yw cyfran marchnad TGAU cyrff dyfarnu yng Nghymru?

Tabl 3: Nifer y tystysgrifau TGAU a gyhoeddwyd yn ôl corff dyfarnu

Corff dyfarnu	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
AQA	18,425	13,545	6,485	2,680	2,860
CCEA	30	20	5	15	0
OCR	6,305	43,55	520	410	370
Pearson	10,230	55,43	1,735	1,165	1,275
CBAC	299,215	370,805	339,550	323,480	326,595
Cyfanswm	**334,200**	**394,285**	**345,300**	**327,750**	**331,100**

Ffynhonnell: Casgliad data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (Ofqual cyn 2017, CC o 2017 ymlaen)

Dyfarnwyd 331,100 o dystysgrifau TGAU yn 2019/20, cynnydd o 3,350 o dystysgrifau, cynnydd o 1.0%, o'i gymharu â'r llynedd. Gwelodd CBAC gynnydd o 3,115 o dystysgrifau, cynnydd o 1.0%, i 326,595 ac, fel unig ddarparwr TGAU cymeradwy, mae'n parhau i ddyfarnu'r mwyafrif helaeth o dystysgrifau TGAU yng Nghymru. Roedd CBAC yn cyfrif am 98.6% o'r farchnad TGAU yng Nghymru yn 2019/20, i lawr ychydig o 98.7% y llynedd.

Beth yw cyfran marchnad UG a Safon Uwch cyrff dyfarnu yng Nghymru?

Tabl 4: Nifer y tystysgrifau UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd yn ôl corff dyfarnu

Corff dyfarnu	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
AQA	6,165	2,415	1,595	1,110	975
CCEA	0	0	0	0	0
OCR	4,730	2,160	1,275	460	355
Pearson	3,400	2,285	1,365	1,035	895
CBAC	76,505	77,115	74,175	71,240	75,905
Cyfanswm	**90,805**	**83,975**	**78,410**	**73,845**	**78,130**

Ffynhonnell: Casgliad data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (Ofqual cyn 2017, CC o 2017 ymlaen)

Cynyddodd nifer y tystysgrifau UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd yn 2019/20 o 4,280 o dystysgrifau, cynnydd o 5.8%, i 78,130. Cafodd y cynnydd hwn ei yrru gan y cynnydd mewn tystysgrifau UG. O blith y rhain, cyhoeddwyd 75,905 gan CBAC. Mae hyn yn cyfrif am 97.2% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd, i fyny o 96.5% y llynedd.

Beth yw cyfran y farchnad o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill yng Nghymru yn ôl corff dyfarnu?

Tabl 5: Nifer y tystysgrifau galwedigaethol a thystysgrifau eraill a gyhoeddwyd yn tynnu sylw at y deg corff dyfarnu uchaf

Corff dyfarnu	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19 (r)	2019/20
CBAC	134,175	85,755	91,605	90,925	95,620
City and Guilds of London Institute	91,785	88,625	89,640	80,730	60,800
Pearson Education Ltd	92,080	64,920	55,480	38,860	43,000
Agored Cymru	8,650	10,150	17,975	18,520	18,845
Highfield Qualifications	20,275	24,975	32,490	32,645	18,125
The London Institute of Banking & Finance	2,530	4,515	4,690	5,975	11,640
Qualsafe Awards	9,045	9,505	12,055	14,070	8,875
NCFE	3,935	2,770	4,225	6,325	7,200
Associated Board of the Royal Schools of Music	10,795	11,310	10,480	10,465	4,390
Trinity College London	6,680	6,780	8,830	8,410	4,385
Cyrff dyfarnu eraill	131,830	113,395	85,625	79,140	43,170
Cyfanswm	**511,780**	**422,695**	**413,090**	**386,065**	**316,055**

Ffynhonnell: Casgliad data Chwarterol Galwedigaethol (Ofqual cyn 2019, CC o 2019 ymlaen)

Mae nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol wedi bod yn gostwng ers 2015/16. Gall newidiadau i fesurau perfformiad a nifer y cymwysterau sy'n cyfrannu at Fagloriaeth Cymru fod yn effeithio ar nifer y tystysgrifau mewn cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill. Ers 2015/16 mae nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd wedi gostwng 195,725, gostyngiad o 38.2%. Yn 2019/20, o'i gymharu â'r llynedd, gostyngodd nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol 70,010, gostyngiad o 18.1%, i 316,055. Roedd y deg corff dyfarnu â'r nifer fwyaf o dystysgrifau yn cyfrif am 86.3% o gyfanswm y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn 2019/20. Cyhoeddodd CBAC 95,620 o dystysgrifau, cynnydd o 4,695, sef cynnydd o 5.2%, gan gyfrif am 30.3% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd. Mae tystysgrifau a ddyfarnwyd gan CBAC yn cynnwys Tystysgrif Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Faint o dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd ym mhob maes pwnc (ASS/SSA)?

Tabl 6: Nifer y tystysgrifau galwedigaethol a thystysgrifau eraill a gyhoeddwyd yn ôl maes pwnc sector

Ardal Sgiliau Sector	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19 (r)	2019/20
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	70,650	69,765	72,750	61,620	44,340
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	18,005	13,285	6,180	5,520	7,830
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	6,495	8,030	6,760	4,410	3,910
04 Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	25,410	24,490	21,455	20,725	13,800
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	18,295	19,315	17,710	21,920	16,205
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	12,315	9,495	7,555	5,965	5,475
07 Manwerthu a Menter Fasnachol	29,410	28,895	28,520	26,785	16,750
08 Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	16,925	16,115	15,775	15,845	10,450
09 Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a Chyhoeddi	29,030	30,125	28,400	26,515	14,030
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	255	260	135	70	260
11 Gwyddorau Cymdeithasol	120	130	390	1,010	1,275
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	12,610	13,450	10,635	5,980	2,825
13 Addysg a Hyfforddiant	3,780	3,430	4,325	4,005	3,240
14 Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	247,190	163,050	169,205	163,190	154,725
15 Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	21,290	22,855	23,290	22,500	20,950
Cyfanswm	**511,780**	**422,695**	**413,090**	**386,065**	**316,055**

Ffynhonnell: Casgliad data Chwarterol Galwedigaethol (Ofqual cyn 2019, CC o 2019 ymlaen)

Yn 2019/20, yr Ardal Sgiliau Sector (SSA) gyda'r nifer fwyaf o dystysgrifau oedd 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith', a oedd yn cyfrif am 154,725 o dystysgrifau, 49.0% o'r

cyfanswm. Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol mewn tystysgrifau galwedigaethol a thystysgrifau eraill, gwelodd y sectorau 'Gwyddoniaeth a Mathemateg', 'Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth', a 'Gwyddorau Cymdeithasol' godiadau nodedig yn 2019/20, o 41.8%, 259.7%, a 26.5% yn y drefn honno. .

Faint o dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd ar bob lefel?

Tabl 7: Nifer y tystysgrifau galwedigaethol a thystysgrifau eraill a gyhoeddwyd yn ôl lefel

Lefel	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19 (r)	2019/20
Lefel Mynediad	33,990	33,365	31,290	31,680	23,415
Lefel 1	86,010	63,705	57,855	53,465	34,740
Lefel 1/2	16,140	64,565	63,865	63,495	70,945
Lefel 2	246,230	166,670	141,025	126,620	96,085
Lefel 3	122,550	85,750	108,275	101,040	83,300
Lefel 4	2,550	3,535	4,705	4,460	3,805
Lefel 5	3,620	4,135	4,825	3,940	3,310
Lefel 6	550	745	870	805	290
Lefel 7	145	220	375	560	170
Lefel 8	5	*	*	*	0
Cyfanswm	**511,780**	**422,695**	**413,090**	**386,065**	**316,055**

Ffynhonnell: Casgliad data Chwarterol Galwedigaethol (Ofqual cyn 2019, CC o 2019 ymlaen)

Dyfarnwyd 96,085 o dystysgrifau yn 2019/20 ar gyfer cymwysterau lefel 2, gostyngiad o 30,535, neu 24.1% o'i gymharu â 2018/19. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, roedd cymwysterau lefel 2 yn cyfrif am 30.4% o'r holl dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol, mwy nag unrhyw lefel arall. Gallai newidiadau i'r mesurau perfformiad a grybwyllir uchod ar dudalen 10 fod yn effeithio ar y gostyngiad yn nifer y tystysgrifau.

Nodiadau cefndir

Ar 21 Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Gymwysterau Cymru fel un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Ystadegau Awdurdod Ystadegau y DU ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

COVID-19

Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, oherwydd pandemig COVID-19, y byddai pob ysgol yng Nghymru ar gau erbyn 20 Mawrth 2020. Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog Mark Drakeford gyfyngiadau pellach i arafu lledaeniad coronafeirws yng Nghymru. Cafodd y mesurau cychwynnol hyn eu llacio cyn dechrau Gorffennaf 2020, ond arhosodd nifer o gyfyngiadau ar waith yn ystod rhai neu bob un o'r misoedd canlynol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, nid oedd llawer o golegau, canolfannau asesu a darparwyr hyfforddiant yn gallu gweithredu am sawl mis. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael effaith ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill yn chwarter 3 2020. Dyfernir llawer o'r cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a ddyfernir yn chwarter 3 i ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau fel rhan o'r gyfres arholiadau haf ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Oherwydd cau ysgolion a cholegau, cafodd llawer o'r cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu mewn ffordd a oedd yn wahanol i'r broses arferol. I rai cymwysterau, roedd hyn yn golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn sylweddol wahanol i'r canlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau yn y datganiad hwn yn cynrychioli nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ac nid ydynt yn cynnwys dysgwyr nad ydynt yn pasio'r cymhwyster. Mewn rhai achosion, gall newidiadau yn y cyfansymiau ar gyfer cymwysterau unigol fod wedi digwydd oherwydd newidiadau yn y gyfradd basio, yn hytrach na newidiadau yn y cofrestriadau.

Ffynhonnell y Data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau wedi cyflwyno gwybodaeth i Gymwysterau Cymru am nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol a nifer y tystysgrifau ar gyfer pob math o gymhwyster cyffredinol oedd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Mae'r tystysgrifau ar gyfer canolfannau yng Nghymru yn unig, pa bynnag fath o ganolfan yw honno.

Amseriad y gwaith o dynnu data

Ar gyfer data sy'n ymwneud â chyrff dyfarnu defnyddir y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar QiW. Mae hyn yn golygu efallai na fydd ffigurau'n cyfateb yn union â ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Er enghraifft, os cafodd corff dyfarnu A gymhwyster gan gorff dyfarnu B, bydd y tystysgrifau ar gyfer y cymhwyster hwnnw yn cael eu cyfrif yn erbyn corff dyfarnu A yn hytrach na B ar gyfer y blynyddoedd cyfredol a blaenorol.

Cyfyngiadau'r data

Mae gwall yn bosibl yn y wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru warantu bod y wybodaeth a dderbynnir yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio am broblemau systematig. Cyflawnir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'i herio neu ei gwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus trwy:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â hwy yn ystod y cynllunio cychwynnol ac unrhyw newidiadau dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata, fel amod iddynt gael eu rheoleiddio, fod yn hollol gywir;
- Bod yn effro i newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir trwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl yn weithredol gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau'n cael eu hystyried yn addas at y diben.

Cymariaethau

O 2017/18 ymlaen cyflwynodd cyrff dyfarnu ddata i Gymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid dehongli cymariaethau â data hanesyddol Ofqual yn ofalus.

Ymdriniaeth Ddaearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data am nifer y tystysgrifau am flwyddyn academaidd 2019/20 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Diwygiadau

Ar ôl eu cyhoeddi, nid yw data am nifer y cyrff dyfarnu, y cymwysterau a'r tystysgrifau cydnabyddedig fel arfer yn destun adolygiad, er y gellir adolygu fersiynau dilynol i gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data mynediad Cymwysterau Cymru ar gyfer yr holl gymwysterau a reoleiddir. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd set gyflawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i sicrhau bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn amddiffyn cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, mae'r holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddir wedi'u talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae ffigyrau llai na 5 ond mwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu dysgwr unigol. Mae'r holl ganrannau yn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn adio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Gymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, er mwyn cael gwell dealltwriaeth ynghylch pwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r farchnad gymwysterau yng Nghymru.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys:

- Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 3 (Gorffennaf - Medi) 2020 ar gyfer Cymru
- Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2019/20
- Datganiad Canlyniadau cyfrifiad 'Ysgolion' blynyddol ', a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru
- Yr 'Annual qualifications market report' ar gyfer Lloegr, a gyhoeddir gan Ofqual

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru i'ch helpu chi i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Cymwysterau Cymru .

Mae cofrestr QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Diweddariad nesaf:

Chwefror 2022 (heb ei gadarnhau)

Adborth defnyddwyr

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei anfon trwy e-bost i ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2021) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r ystadegau ar yr amod y cyfeirir at Gymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.